

Manteisio i'r eithaf ar barcio i breswylwyr

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth hanfodol ynghylch manteisio i'r eithaf ar barcio i breswylwyr. Fe'i hanfonwyd atoch oherwydd eich bod yn byw yn un o'r parthau a neilltuwyd ar gyfer parcio i breswylwyr a bod hawl gennych i wneud cais am hawlen os dymunwch.

Mae'n bwysig eich bod yn anfon eich cais **cyn gynted â phosib** gan y bydd hynny yn ein helpu ni i brosesu'r cais ac yn eich cynorthwyo chi i gael yr hawlen.

Bydd pob ffurflen gais a lenwir yn cael ei phrosesu yn union yn ôl y dyddiad y bydd wedi cyrraedd ein swyddfa.

Pwy all wneud cais am hawlenni?

Mae hawlenni ar gael i'r rhai hynny sy'n byw yn y parthau preswyl. Mae pob cais yn para am 12 mis.

Dylech gofio nad yw hawlen yn gwarantu y bydd lle i chi barcio eich cerbyd – dim ond caniatâu i chi barcio cerbyd yn y parth priodol a wna, os bydd lle ar gael. Rhoddir y caniatâd hwn i chi yn unig yn ystod cyfnod eich hawlen ac o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am-6pm.

Nid yw hawlen yn rhoi caniatâd i chi barcio:

- ❖ ar linellau melyn pan yw'r rheini yn weithredol.
- ❖ am hwy nag awr mewn mannau aros sydd wedi'u cyfyngu i awr

Yr hyn sydd angen i chi ei wneud

Cynhyrchwyd y Rheolau hyn i'ch hysbysu am bopeth y mae angen i chi ei wybod am y cynllun parcio i breswylwyr a sut i fanteisio i'r eithaf arno. Os byddwch angen eglurhad ar unrhyw agwedd ar y cynllun mae croeso i chi gysylltu ag Adain Hawlenni Parcio Sir Gaerfyrddin ar 01267 228390 neu ddefnyddio ein gwefan ar www.sirgar.llyw.cymru.

DS. Gall preswylwyr sy'n berchenogion ar feiciau modur barcio yn y parthau heb arddangos hawlen ond bydd rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw reolau traffig sy'n berthnasol i'r man hwnnw.

Sut i wneud cais am hawlen

HAWLEN PRESWYLWYR

Dylech nodi na roddir mwy na dwy hawlen i bob cartref. Bydd pob hawlen yn costio £30 am gyfnod na fydd yn hwy na 12 mis. At y diben o gael hawlen i barcio ym Mharth Parcio i Breswylwyr Cyngor Sir Gaerfyrddin, *diffinnir cartref fel tŷ neu fflat sydd wedi cael ei brisio yn unigol at ddibenion Treth y Cyngor. Rhaid i bob cartref felly gael ei adnabod fel preswylfa sydd â chyfeiriad ei hun at ddibenion Treth y Cyngor.*

Pa brawf fydd angen i mi ei gyflwyno

Profi preswylfan

Bydd angen i chi ddarparu copiâu o ddau brawf. Gall y rhain fod yn unrhyw ddau o'r canlynol

- ❖ copi o'r **bil diwethaf** atoch am **Dreth y Cyngor, Dŵr**
 - ❖ copi o'r **bil diwethaf [o fewn 6 mis]** atoch am gyfleustodau, h.y. **nwy, trydan neu ffôn**, yn eich enw chi neu enw'ch priod
 - ❖ copi o'r datganiad **diwethaf [o fewn 6 mis]** gan eich **banc neu gwmni cerdyn credyd** (*am resymau diogelwch gallwch guddio unrhyw fanylion ariannol personol*)
- NI CHANIATEIR** – Bil ffôn symudol, Cytundeb tenantiaeth

Prawf ynghylch perchenogaeth y cerbyd neu'r hawl i'w ddefnyddio

Dim ond un o'r canlynol fydd ei angen

- ❖ copi o Ddogfen Gofrestru (V5) yr Asiantaeth Drwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), ddylai ddangos enw, cyfeiriad a manylion cerbyd yr ymgeisydd neu
- ❖ copi o dystysgrif yswiriant ddilys sy'n nodi eich bod yn yrrwr a enwir, eich cyfeiriad presennol a manylion y cerbyd.

DS. Ni ellir derbyn 'nodyn dros dro' fel prawf ynghylch perchenogaeth y cerbyd.

Os mai car ar les sydd gennych, byddwch angen llythyr oddi wrth y cyflenwr, ar bapur pennawd swyddogol ac wedi'i lofnodi gan un o swyddogion y cwmni cyflenwi. Rhaid i'r llythyr gynnwys manylion y cerbyd, eich enw a'ch cyfeiriad presennol.

Os ydych yn gyrru car cwmni neu gar 'pwll' bydd angen llythyr ar bapur pennawd eich cyflogwr a **rhaid** iddo fod wedi'i lofnodi gan un o swyddogion eich

cyflogwr. Rhaid i'r llythyr ddangos eich enw, cyfeiriad y cais, ac mewn perthynas â char cwmni, manylion y cerbyd. Os ydych yn gyrru car 'pwll' rhaid nodi hynny yn y llythyr. Rhaid i'r llythyr roi caniatâd i chi yrru'r cerbyd a'i barcio y tu allan i'ch cartref.

Os ydych yn gyrru cerbyd sydd wedi'i gofrestru yn enw rhywun sydd ddim yn byw yng nghyfeiriad y cais, byddwch angen llythyr oddi wrth y perchennog cofrestredig, wedi'i lofnodi ganddo, sy'n nodi eich enw, cyfeiriad y cais, manylion y cerbyd a bod gennych hawl i yrru'r cerbyd.

Bydd angen i chi hefyd ddarparu copi o dystysgrif yswiriant ddilys sy'n nodi eich bod yn yrrwr a enwir a manylion y cerbyd.

Beth os ydych yn gyrru cerbyd 'gwyrd'?

Os yw eich cerbyd yn rhedeg ar Nwy Petrolewm Hylifedig (LPG) neu drydan, rhoddir hawlen i chi yn **ddi-dâl**.

Serch hynny bydd rhaid i chi gyflenwi yr un profion ag sy'n angenrheidiol ar gyfer hawlen i breswylwyr. Yn ogystal, bydd angen i chi ddangos fod y cerbyd yn rhedeg ar Nwy neu drydan. Bydd hyn wedi'i nodi ar y ffurflen V5, neu os yw'r cerbyd wedi'i addasu i redeg ar y cyfryw ynni, y dystysgrif sy'n dangos i'r cerbyd gael ei addasu.

Sut i wneud cais am hawlen (parhad)

Deiliaid Bathodynau Glas

Os ydych yn ddeiliad bathodyn glas, caniateir i chi barcio heb gyfyngiad am gyfnod diderfyn yn yr ardal parcio i drigolion. Rhaid i bathodyn glas dilyn cael eu harddangos

HAWLEN FUSNES

Os ydych yn fusnes bydd gennych hawl i wneud cais am un hawlen yn unig. Dewis Cyngor Sir Gaerfyrddin fydd i roi'r hawlen ai peidio. Bydd yr hawlen yn costio £50 a bydd angen i chi ddangos bod y busnes yn y cyfeiriad.

Pa brawf fydd angen i mi ei gyflwyno?

Mae'n ofynnol cael copi o'r Lluosydd trethu annomestig i'r busnes

HAWLEN GOFALWYR

Bydd hawlen gofalwyr ar gael **yn ddi-dâl** i breswylwyr sydd angen gofal yn rheolaidd

Bydd yr hawlen hon ar gyfer gofalwyr megis meddygon, gweithwyr iechyd, cynorthwywyr gofal cartref, bydwagedd neu unrhyw berson a bennwyd i'ch goruchwyllo.

Pa brawf fydd angen i mi ei gyflwyno?

Ym mhob achos byddwn angen llythyr oddi wrth y sawl sy'n darparu eich cymorth meddygol, ar bapur swyddogol GIG neu'r feddygfa yn datgan eich bod angen goruchwyliaeth neu ofal hir dymor gan un o'r bobl broffesiynol a enwir uchod. Yn ogystal rhaid i chi gyflwyno prawf o'ch cyfeiriad cartref fel y nodir yn y paragraff uchod, **profi preswylfan**.

HAWLEN YMWELWYR

Mae'r hawlenni ymwelwyr sydd ar gael i'w defnyddio yn unig gan bobl sy'n ymweld â'ch cartref. Chaniateir un hawlen ar gyfer pob cartref. Anfonir yr hawlen yn ymateb

i'r cais cyntaf am hawlen i breswylwyr a dderbynnir o gartref. Bydd yr hawlen yn costio £30

Hyd yn oed os nad ydych yn berchen ar gar neu os nad ydych yn gwneud cais am hawlen i breswylwyr, gallwch wneud cais am hawlen i ymwelwyr. Am yr hawlen hon ar gyflwyno'r prawf a nodir yn y paragraff uchod, **profi preswylfan**

Yr un yw'r telerau o ran defnyddio hawlen ymwelwyr ag hawlen i breswylwyr.

CEISIADAU

Dylid anfon cais am hawlen cyn gynted â phosib. Dylid llenwi'r ffurflen gais yn briodol a dylech nodi'r math o hawlen sydd ei hangen ac amgáu'r prawf gofynnol fel y nodwyd uchod ynghyd â'r taliad angenrheidiol.

Anfonwch y cais i Cyngor Sir Gaerfyrddin, Blwch Post 90, Caerfyrddin SA31 3WR

DS. Rhaid i bob prawf fod wedi'i deipio neu ei brintio. Ni fyddwn yn derbyn prawf sydd wedi'i ysgrifennu â llaw.

Crynodeb o Reolau'r Cynllun

Y Math o Hawlen	Nifer yr Hawlenni	Profion	Tâl
Preswylwyr-cerbydau modur sy'n pwyso llai yn wag na 2 dunnell fetrig ac/neu yn mesur llai na 5.3 metr (17' 4") o hyd neu ag uchafswm o 8 sedd i deithwyr. (Yn cynnwys cerbydau LPG neu drydan)	2	Cyhoeddir yn ôl dyddiad y cais i Adain Hawlenni Parcio Sir Gaerfyrddin. Mae angen 2 brawf o ran cyfeiriad preswyl ynghyd â phrawf fod gennych hawl i yrru'r cerbyd. Cyhoeddir hawlen ar gyfer cerbyd penodol. Bydd angen i berchenogion cerbydau LPG neu drydan gyflwyno prawf fod eu cerbydau yn defnyddio LPG neu drydan.	Bydd pob hawlen yn costio £30. Ni chodir tâl am hawlen i pherchenogion cerbydau LPG neu drydan
Ymwelwyr â Phreswylwyr (ceir, a faniau ysgafn yn unig)	1	Cyhoeddir i'r preswylwyr cyntaf o bob cartref i wneud cais am hawlen preswylwyr. Gellir ei roi hefyd, ar dderbyn cais, i'r preswylwyr hynny sydd heb fod yn berchen ar gar neu heb wneud cais am hawlen i breswylwyr. Os nad ydych wedi gwneud cais am hawlen i breswylwyr rhaid i chi gyflwyno 2 brawf o'ch cyfeiriad preswyl.	£30
Busnes sydd wedi'i leoli yn y parth	1	Mae'n ofynnol cael copi o'r Lluosydd trethu annomestig i'r busnes.	£50
Gofalwr	1	Ar gael i breswylwyr sy'n dioddef salwch neu anabled hir dymor neu sydd angen goruchwyliaeth reolaidd. Bydd angen prawf am yr angen am oruchwyliaeth feddygol.	Di-dâl

Gwybodaeth hanfodol

PA HANFODION ERAILL SYDD ANGEN I MI WYBOD AMDANYNT?

HAWLENNI NEWYDD

1. Beth os byddaf yn colli neu'n difrodi fy hawlen, neu'n newid fy ngherbyd?

Os byddwch yn colli neu ddiffrodi eich hawlen neu'n newid eich cerbyd ac angen hawlen newydd, bydd angen i chi wneud cais o'r newydd gan amgáu'r holl brofion a'r tâl. Bydd unrhyw hawlen a gyhoeddir yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad y'i cyhoeddir. **Os byddwch yn newid cerbyd bydd angen i chi ildio eich hawlen bresennol.** Codir y tâl i dalu am y costau gweinyddol o gynhyrchu hawlen newydd.

DS. Os ydych eisoes yn meddu ar yr uchafswm o hawlenni a ganiateir ar gyfer eich cartref a'ch bod yn prynu cerbyd newydd cyn gwaredu ar un o'r cerbydau sydd â hawlen, ni allwch gael hawlen newydd ar gyfer y cerbyd ychwanegol nes i chi ildio un o'r hawlenni sydd gennych eisoes. Yn ystod y cyfnod hwn dylech

wneud trefniadau eraill i barcio'r cerbyd ychwanegol y tu allan i'r parth parcio neu gallwch ddefnyddio eich hawlen ymwelwyr os bydd y cyfnod heb fod yn hwy nag wythnos.

CERBYDAU DROS DRO

2 Beth os byddwch yn newid eich cerbyd dros dro?

Os byddwch yn newid eich cerbyd dros dro, am gyfnod sydd heb fod yn hwy nag wythnos (h.y. car cwrtseisi tra fo eich cerbyd arferol yn cael gwasanaeth/ei atgyweirio, neu gar hurio) gallwch ddefnyddio eich hawlen ymwelwyr.

SYMUD TY

3 Beth ddylwn wneud os wyf yn symud tŷ?

Os byddwch yn symud o'ch cyfeiriad dylech ddychwelyd eich hawlen(ni) atom fel y gallwn eu canslo. Anfonwch eich hawlen(ni) i: Cyngor Sir Caerfyrddin, Blwch Post 90, Caerfyrddin. SA31 3WR.

Mae gwneud hyn yn hollbwysig i gynnal y system hawlenni parcio gan na allwn roi

hawlen(ni) i ddeiliad newydd eich cartref nes y byddwch chi wedi dychwelyd eich hawlen(ni) chi.

4 Beth ddylwn wneud os wyf newydd symud i'm tŷ?

Os ydych newydd symud i mewn dylech gyflwyno'r profion y gofynnir amdanynt yn yr Adran uchod '**Sut i wneud cais am hawlen**'.

Os byddwch yn symud i barth parcio arall rhaid i chi wneud cais am hawlen ar gyfer y parth newydd. Bydd hyn yn galw am lenwi ffurflen gais o'r newydd, cyflwyno'r profion cywir ac amgáu'r tâl priodol. Cofiwch eich bod yn ildio'r hawlen(ni) oedd yn berthnasol i'ch hen gyfeiriad.

RHAGOR O WYBODAETH

5 Lle ddylwn fynd i gael rhagor o wybodaeth?

Gallwch ein ffonio ar 01267 228390 rhwng 09:00 a 16:30, dydd Llun i ddydd Gwener (eithrio Gwyliau Banc) neu ddefnyddio ein gwefan ar www.sirgar.llyw.cymru

Ydw i wedi deall hyn i gyd yn iawn?

Mae'r cynllun hawlenni parcio wedi'i gynllunio i fod mor hawdd â phosib i'w ddefnyddio ac i fod yn effeithiol hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny sydd â hawl i hawlenni sy'n eu derbyn. Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau fod yn cynllun yn gweithredu er lles y

mwyafrif o'r bobl. Rydym wedi ceisio symleiddio cymaint â phosib ar y broses o wneud cais.

Rhaid i bob cerbyd sy'n parcio yn y safleoedd a reolir gan hawlenni arddangos hawlen ddilys bob amser yn ystod oriau'r cynllun.

Mae'r Cyngor Sir yn cadw'r hawl i wrthod rhoi hawlenni i gartrefi sy'n camddefnyddio'r system, neu eu tynnu'n ôl oddi wrthynt.

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn eich atgoffa am y pwyntiau allweddol sydd angen i chi eu gwybod a'u gwneud:

Rhestr Wirio

Cofiwch beidio ag anfon eich dogfennau gwreiddiol atom – ni allwn eu dychwelyd atoch

Cofiwch sicrhau mai llungopiâu o'r prawf sydd ei angen yr ydych yn eu hanfon atom

Cofiwch mai cynllun post yn unig yw hwn

Gellir darparu hawlenni parcio i breswylwyr (yn cynnwys hawlenni ymwelwyr) ond drwy'r post yn unig, nid yn bersonol

Dylid talu naill ai gyda siec, cerdyn debyd/credyd/ neu archeb bost

Cofiwch sicrhau fod eich siec a/neu archeb bost yn daladwy i: Cyngor Sir Caerfyrddin

Cofiwch sicrhau eich bod yn gwneud cais NAWR

*Rhaid i chi anfon eich cais cyn gynted a phosib, **cofiwch arwyddo'r ffurflen**. Ymdrinnir â'r holl ffurflenni cais yn union yn ôl y dyddiad y byddant wedi'u derbyn a bwrw eu bod wedi'u llenwi'n gywir ac yn cynnwys y prawf a'r tâl priodol.*

Cofiwch sicrhau eich bod yn postio'r dogfennau a'r tâl priodol atom

Cofiwch ddarllen yr adran 'Sut i wneud cais am hawlen' i sicrhau eich bod yn anfon y prawf a'r tâl cywir ar gyfer eich cais.

RHEOLAU'R CYNLLUN PARCIO I BRESWYLWYR

Gwybodaeth angenrheidiol



I gael fersiwn print bras o'r ffurflen ffoniwch 01267 228390